# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Ionawr 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

13.30

## 2 Y Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

13.30 - 14.30 (Tudalennau 1 - 10)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

David Lloyd-Thomas, Pennaeth Uned Strategaeth a Pholisi Bwyd, Llywodraeth Cymru

Claire Butterworth, Cyfreithwraig, Llywodraeth Cymru

Bil Bwyd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 - Papur 1 - Briffio

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

14.30 - 14.35 (Tudalennau 11 - 12)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)309 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

14.35 - 14.40

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)308 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 4) 2022**

(Tudalennau 13 - 15)

Rheoliadau (Saesneg yn unig)

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)310 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 5) 2022**

(Tudalennau 16 - 17)

Rheoliadau (Saesneg yn unig)

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

14.40 - 14.45

**5.1 SL(6)301 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 18 - 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-03-23 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

14.45 - 14.50

**6.1 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cyfarfod o'r Cyngor Gweinidogion Addysg**

(Tudalen 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 7 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 13 Ionawr 2023

**6.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Fforwm Masnach Gweinidogol**

(Tudalennau 22 - 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 8 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 13 Ionawr 2023

**6.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol Busnes a Diwydiant**

(Tudalennau 24 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 - Papur 9 - Llythyr gan y Gweinidog yr Economi, 19 Ionawr 2023

LJC(6)-03-23 – Papur 10 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 16 Ionawr 2023

**6.4 Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2023: Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a gohebiaeth rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

(Tudalennau 27 - 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 - Papur 11 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 18 Ionawr 2023

LJC(6)-03-23 – Papur 12 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 17 Ionawr 2023

LJC(6)-03-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 16 Ionawr 2023

LJC(6)-03-23 – Papur 14 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 20 Rhagfyr 2022.

**6.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 15 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Ionawr 2023

## 7 Papurau i'w nodi

14.50 - 14.55

**7.1 Gohebiaeth gan Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Cysylltiadau rhynglywodraethol**

(Tudalennau 39 - 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 - Papur 16 - Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 13 Ionawr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-03-23 - Papur 17 - Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, 4 Tachwedd 2022

**7.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar Fil Banc Seilwaith y DU: Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

(Tudalen 44)

[Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 16 Ionawr 2023

**7.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022**

(Tudalennau 45 – 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 19 – Llythyr a Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 17 Ionawr 2023

**7.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Goblygiadau ar gyfer briffio ar ddatganoli**

(Tudalennau 48 – 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 20 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, 17 Ionawr 2023 [Saesneg yn unig]

**7.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cywiriadau i is-ddeddfwriaeth Gymreig**

(Tudalennau 51 – 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 21 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 18 Ionawr 2023

LJC(6)-03-23 – Papur 22 – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 21 Rhagfyr 2022

**7.6 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

(Tudalennau 57 – 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 23 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Ionawr 2023

**7.7 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalen 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 24 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Busnes, 19 Ionawr 2023

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

14.55

## 9 Y Bil Bwyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth

14.55 – 15.10

## 10 Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Adroddiad drafft

15.10 – 15.55 (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 25 – Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-lein: Adroddiad drafft

15.55 – 16.05 (Tudalennau 62 – 69)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 26 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-03-23 – Papur 27 – Llythyr gan y Gweinidog yr Economi, 18 Ionawr 2023

## 12 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

16.05 – 16.15 (Tudalennau 70 – 84)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 28 – Nodyn cygnor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Caffael

16.15 – 16.25 (Tudalennau 85 – 104)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 29 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 14 Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad interim

16.25 – 16.35 (Tudalennau 105 – 120)

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad interim

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 30 – Papur briffio gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

## 15 Adroddiad monitro

16.35 – 16.45 (Tudalennau 121 – 133)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-23 – Papur 31 – Adroddiad Monitro [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 23 Ionawr 2023

## SL(6)309 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793[1] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu, mewn perthynas â Chymru, y rhestrau a nodir yn Atodiadau 1 a 2 o Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn rheolaidd o leiaf bob chwe mis, a hynny er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

Mae'r adolygiad hwnnw wedi'i gynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod nwyddau risg uwch yn parhau i fod yn destun rheolaethau uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs). Mae rheolaethau o'r fath yn cynnwys archwiliadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol gan gynnwys samplu mewn safleoedd rheoli ffiniau dynodedig.

Mae'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau y gellir eu crynhoi'n fras fel a ganlyn:

- nwyddau sydd wedi'u tynnu o'r rheolaethau;
- nwyddau sy'n destun llai o reolaethau;
- nwyddau sy'n destun mwy o reolaethau;
- nwyddau sydd angen rheolaethau newydd.

Er enghraifft, mae'r newidiadau i Atodiad 1 yn cynnwys:

[1] Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir (EU) 2019/1793 ar y cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r UE.

- mae amlder y gwiriadau ar bupur du o Frasil (ar gyfer Salmonela) wedi ei gynyddu o 20% i 50%.;

- mae'r cofnod ar gyfer aeron goji o Tsieina (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei ddileu;

- mae amlder y gwiriadau ar gyfer mandarins (gan gynnwys tanjerîns a satswmas), clementinau, wilkings a hybridiau sitrws tebyg o Dwrci (ar gyfer gweddillion plaleiddiaid) wedi ei gynyddu o 5% i 20%.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru a bydd rheoliadau cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, sy'n golygu, unwaith y bydd deddfwriaeth yn ei lle i sicrhau bod defnyddwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu diogelu rhag bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â'r risg uchaf trwy reolaethau ar ffin Prydain Fawr.

Dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) yng Nghymru felly, ni all y nwyddau hyn, fel y maent ar hyn o bryd, gael eu mewnforio yn uniongyrchol i Gymru o drydydd gwledydd.

Yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, anfonwyd hysbysiad o'r diwygiadau arfaethedig at Sefydliad Masnach y Byd.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

**Deddfwriaeth alluogi:** Erthyglau 47(2)(b) a 54(4)(a) a (b) o Reoliad(EU) 2017/625, Erthygl 53(1)(b) o Reoliad (EC) Rhif 178/2002

**Fe'u gwnaed ar:** 14 Rhagfyr 2022

**Fe'u gosodwyd ar:** 16 Rhagfyr 2022

**Yn dod i rym ar:** 17 Ionawr 2023

# SL(6)308 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 4) 2022

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 4) 2022 ("y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"), sy'n llywodraethu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr sydd wedi cymryd benthyciadau sy'n dibynnu ar incwm ar gyfer cyrsiau yn dechrau ym mis Medi 1998 neu wedi hynny.

Mae Rheoliadau 2009 (a diwygiadau dilynol iddynt) wedi eu gwneud fel offerynnau cyfansawdd; sy'n golygu eu bod wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru).

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2009:

- yn ad-drefnu benthyciadau myfyrwyr o fewn cwmpas Rheoliadau 2009 yn bum cynllun, gan gynnwys benthyciad cynllun 5 newydd ar gyfer cyrsiau penodol sy'n dechrau ar 1 Awst 2023 neu wedi hynny;
- yn achos benthycwyr sydd â benthyciad cynllun 2 ("benthyciad myfyriwr ar ôl 2012" yn flaenorol):
    - yn cynnal y trothwy ad-dalu ar sail incwm (lle mae'n ofynnol i fenthyciwr sydd wedi cyrraedd y dyddiad ad-daliad statudol sy'n ddyledus yn rheoliad 15 wneud ad-daliadau uwchlaw hynny) ar £27,295 tan ddiwedd 5 Ebrill 2025, ac
    - yn newid uwchraddiad blynyddol y trothwy ad-dalu wedi hynny o gyfrifiad sy'n seiliedig ar wahaniaethau mewn enillion cyfartalog i un sy'n seiliedig ar y mynegai prisiau manwerthu;
- yn cyflwyno cyfraddau rhandaliadau sefydlog, sydd:
    - yn cael eu defnyddio i gyfrifo ad-daliadau gan fenthycwyr tramor nad ydynt wedi darparu'r wybodaeth ofynnol am eu hincwm,
    - yn disodli'r rhandaliadau penodedig a nodir yn rheoliad 76 (sydd wedi'i hepgor), ac
    - yn achos ad-daliadau benthyciad cynllun 2, benthyciad cynllun 3 ("benthyciad gradd ôl-raddedig" yn flaenorol) neu fenthyciad cynllun 5, yn cael eu hailgyfrifo'n flynyddol ar sail cyflog canolrifol graddedigion;
- yn cydgrynhoi'r darpariaethau sy'n gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau cynllun 2 a 3 a gymhwysir gan OS 2021/677, 1005, 1378, 2022/889 a 1151 (sy'n cael eu dirymu);
- yn hepgor darpariaethau sydd wedi darfod;
- yn gwneud diwygiadau mân, atodol neu dechnegol.

Bydd y newid y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gyflwyno yn arwain at nifer o fanteision ac arbedion i Lywodraeth Cymru, y ceir manylion amdanynt ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

O ganlyniad i wallau drafftio yn y Rheoliadau hyn, mae'r rhain eu hunain wedi cael eu diwygio gan Reoliadau Rhif 5 o'r un enw. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> *"An error has been identified in the commencement provisions in the 2002 No.4 regulations (SI 2022/1335) which means aspects of the instrument relating to the prevailing market rate interest rate cap for Plan 2 (post-2012 undergraduate) and Plan 3 (Postgraduate) student loans may not come into force on 16 January as intended.*
>
> *This error may create uncertainty and lead to further difficulty when the relevant provision needs amending in February 2023. To rectify this, the 2022 No.5 Regulations will correct the commencement provision."*

## Gweithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. Rydym yn nodi, o ganlyniad, y gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"This composite statutory instrument is subject to the negative resolution procedure. As the regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually."*

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn baragraff 5.1 y Memorandwm Esboniadol:

> *"There is no statutory requirement to consult on these regulations and no consultation has been undertaken."*

O ystyried bod y Rheoliadau hyn yn ad-drefnu benthyciadau myfyrwyr o dan Reoliadau 2009 ac, yn benodol, yn newid y modd y mae'r trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau Cynllun 2 yn cael ei gyfrifo ar ôl 5 Ebrill 2025 a'r sail ar gyfer ailgyfrifo benthyciadau Cynllun 2, 3 a 5 yn flynyddol, nid yw'n glir pam na chynhaliwyd ymgynghoriad.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt adrodd 2.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Ionawr 2023**

# SL(6)310 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 5) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009") yn llywodraethu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr sydd wedi cael benthyciadau sy'n amodol ar incwm ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl mis Medi 1998.

Mae Rheoliadau 2009 (a diwygiadau dilynol iddynt) wedi eu gwneud fel offerynnau cyfansawdd; sy'n golygu eu bod wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru).

Gwnaed diwygiadau amrywiol yn ddiweddar i Reoliadau 2009 drwy Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 4) 2022. (OS. 2022/1335) ("Rheoliadau Rhif 4").

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud o ganlyniad i wallau drafftio yn Rheoliadau Rhif 4. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"An error has been identified in the commencement provisions in the 2002 [sic:* dylai ddweud "2022"*] No.4 regulations (SI 2022/1335) which means aspects of the instrument relating to the prevailing market rate interest rate cap for Plan 2 (post-2012 undergraduate) and Plan 3 (Postgraduate) student loans may not come into force on 16 January as intended.*
>
> *This error may create uncertainty and lead to further difficulty when the relevant provision needs amending in February 2023. To rectify this, the 2022 No.5 Regulations will correct the commencement provision*".

## Y weithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> "*This composite statutory instrument is subject to the negative resolution procedure. As the regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually.*"

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2023**

# SL(6)301 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pa ddosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bersonau (Dosbarth M) sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae Dosbarth M yn gymwys i bersonau sy'n ddioddefwyr y fasnach mewn pobl neu gaethwasiaeth ac y rhoddwyd iddynt ganiatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r Rheolau Mewnfudo a wnaed o dan Ddeddf Mewnfudo 1971.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bobl, a elwir yn Ddosbarth N, sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath. Mae'r dosbarth hwn yn cyfateb i Ddosbarth M a fewnosodir gan reoliad 3.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau wedi'i osod yn Saesneg yn unig.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i osod.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu dim ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"As the TPS is a product of reserved UK Government policy (immigration), it would not be possible to undertake a meaningful consultation on alternative approaches, as the effect of the 2022 Regulations[1] is to ensure consistency between Welsh housing law and immigration law."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt un.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

[1] Dylai'r cyfeiriad fod at Reoliadau 2023. Ymddengys fod hwn yn gamgymeriad yn y Memorandwm Esboniadol.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2023**

***Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:*** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog gerbron y Senedd. Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg (y dyletswyddau statudol a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg) yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried y pwnc a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. Yn unol â chanllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd (yn y *Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015*), wrth flaenoriaethu pa ddogfennau i'w cyfieithu ar yr adeg hon, gwnaethom ystyried materion megis a oedd y Rheoliadau yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Rheoliadau o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o gynulleidfa'r dogfennau yn siarad Cymraeg. Gan fod y Rheoliadau hyn yn berthnasol yn bennaf i bobl o'r tu allan i'r DU, ac yn annhebygol o effeithio ar siaradwyr Cymraeg, nid ydynt wedi cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer cyfieithu ar hyn o bryd.

Bydd y Pwyllgor yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn llunio memoranda esboniadol i is-ddeddfwriaeth Cymru yn ddwyieithog wrth symud ymlaen, fel y cadarnhawyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn llythyr Llywodraeth Cymru ar 13 Ionawr 2023.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

13 Ionawr 2023

Annwyl Gadeirydd

**Canlyniad cyfarfod Cyngor y Gweinidogion Addysg ar 9 Rhagfyr 2022**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, gallaf adrodd fy mod wedi cadeirio trydydd cyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y DU (UKEMC) ddydd Gwener 9 Rhagfyr yn Adeiladau Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Roedd Shirley-Anne Somerville ASA, Ysgrifennydd Cabinet Addysg a Sgiliau yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Roedd y Gwir Anrhydeddus Gillian Keegan, Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn bresennol ar ran Llywodraeth y DU, ac roedd Mark Browne, Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Addysg a Mark Lee, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol yn cynrychioli Gogledd Iwerddon drwy gyswllt fideo.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a drafodwyd yn ystod y cyfarfod ar gael yma.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

13 Ionawr 2023

Annwyl Paul, Huw

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi mynychu cyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar Fasnach ar 9 Ionawr.

Roedd Greg Hands, y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, Ivan McKee, Gweinidog yr Alban dros Fusnes, Masnach, Twristiaeth a Menter a chynrychiolwyr o swyddfeydd gwladol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd datganiad ar y cyd ynglŷn â'r cyfarfod yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd y dull diwygiedig o rannu gwybodaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ogystal â diweddariadau ar y trafodaethau masnach parhaus, gan gynnwys India a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).

Roeddwn i'n falch o glywed am y trefniadau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth a fydd yn gam pwysig ymlaen er mwyn galluogi trafodaethau sy'n fwy adeiladol. Edrychaf ymlaen at weld sut bydd y broses newydd hon yn cael ei rhoi ar waith.

Cefais y cyfle yn y cyfarfod i rannu ein safbwyntiau ynghylch y trafodaethau presennol â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel, India a Chyngor Cydweithredol y Gwlff. Pwysleisiais eto ein barn bod rhaid i unrhyw gytundeb masnach gefnogi ein nodau polisi ehangach, gan gynnwys mewn meysydd megis yr amgylchedd a llafur. Rwyf wedi bod yn glir iawn bob amser na ddylai cytundebau masnach danseilio'r safonau uchel sydd gennym yma yng Nghymru.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/00021/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

19 Ionawr 2023

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr ar 16 Ionawr, roeddwn am eich diweddaru ynghylch canlyniad cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fusnes a Diwydiant, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr.

Nodwyd eisoes y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn y cyfarfod trafodom y materion sy'n effeithio ar economïau pob cenedl ar hyn o bryd. Gwnaethom hefyd adolygu'r cynllun cymorth ynni newydd ar gyfer busnesau, y Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni (EBDS). Er fy mod yn croesawu cyffredinolrwydd y cynllun newydd, a fydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i fusnesau, pwysleisiais i'r Gweinidog Callanan sut y gallai'r EBDS wneud mwy i helpu'r sector cyhoeddus a'r busnesau hynny sy'n cyflenwi sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Rhoddodd yr Arglwydd Callanan ddiweddariad hefyd ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf). Mynegais fy mhryderon am y ddeddfwriaeth ac er fy mod yn cydnabod bod cyfraith cyflogaeth yn fater a gedwir yn ôl, nid wyf yn rhannu dadansoddiad Llywodraeth y DU o'r effaith ar y setliad datganoli. Pwysleisiais safbwynt Llywodraeth Cymru y dylid wastad osgoi streicio neu y dylid datrys unrhyw anghydfod bob amser drwy drafod yn adeiladol, nid drwy ddeddfwriaeth.

Yna, rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, y diwygiadau cysylltiedig i Dŷ'r Cwmnïau a gweithredu'r Ddeddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi).

Fe wnes i ailadrodd sut roeddwn yn croesawu'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur Troseddau Economaidd ac rwyf eisoes wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, buom yn siarad am ffocws strategol y Grŵp hwn. Cytunwyd bod angen i gyfarfodydd ganolbwyntio ar feysydd polisi allweddol a rennir.

Bydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fusnes a Diwydiant nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth, a byddaf i'n Gadeirydd arno. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn cadarnhau'r dyddiad unwaith y bydd wedi'i gytuno

Bydd hysbysiad ynghylch y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn Interministerial Group for Business and Industry: communiqués - GOV.UK (www.gov.uk)

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

16 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf Grŵp Rhyng-Weinidogol Busnes a Diwydiant yn cael ei gynnal ar 17 Ionawr 2023 ac yn cael ei gynnal yn rhithiol.

Dyma gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyng-Weinidogol Busnes a Diwydiant cyntaf ers mis Mai 2022 a bydd yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Callanan, y Gweinidog Busnes, Ynni a Chyfrifoldeb Corfforaethol yn BEIS. Bydd Ivan McKee MSP, Gweinidog Busnes, Masnach, Twristiaeth a Menter Llywodraeth yr Alban hefyd yn bresennol.

Heb unrhyw Weinidogion Gweithredol Gogledd Iwerddon a dim llinell amser clir ynglŷn â phryd y bydd eu sefyllfa wleidyddol yn cael ei datrys, bydd Gogledd Iwerddon yn cael ei chynrychioli gan uwch Swyddog, a allai gynnig sylwadau ond na fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar yr hinsawdd economaidd bresennol, materion sy'n ymwneud â'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol – Diwygiadau i Dŷ'r Cwmnïau, a threfnu a ffocws strategol Grwpiau Rhyng-Weinidogol y dyfodol yn 2023.

Rwyf hefyd yn anfon copïo o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd a Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Byddaf yn rhoi diweddariad yn dilyn y cyfarfod.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Russell George AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

18 Ionawr 2023

Annwyl Huw , Jayne, Russell

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fod fy nghydsyniad wedi'i roi ar gyfer Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a bod Offeryn Statudol hwn bellach wedi'i osod yn Senedd y DU.

Mae'r OS wedi diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol i wneud newidiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) fel y'u diwygiwyd,

- Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/52/EEC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 96/8/EC, 1999/21/EC, 2006/125/EC a 2006/141/EC, Cyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 ac (EC) Rhif 953/2009[1],

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc**Error! Bookmark not defined.**, a

[1] Rheoliad yr UE a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a 2020

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128 o 25 Medi 2015 sy’n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwyd at ddibenion meddygol arbennig.

Mae’r diwygiadau hyn wedi:

- diweddaru’r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru’r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer sinc mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru’r ffurfiau o niasin a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys nicotinamid ribosid clorid
- diweddaru’r ffurfiau o fagnesiwm a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys magnesiwm citrad malad
- diweddaru’r ffurfiau o ffolad a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- diweddaru’r ffurfiau o ffolad a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi’u seilio ar rawn a bwydydd babanod i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- safoni’r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a
- safoni’r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc.

[Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2023 (17 Ionawr 2023) | LLYW.CYMRU]

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022** |
| **DYDDIAD** | **Ionawr 2023** |
| **GAN** | **Lynne Neagle**<br>**Y Dirprwy Brif Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cytundeb gan Jo Churchill AS (yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Atal, Iechyd Cyhoeddus a Gofal Sylfaenol) i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022 sy'n nodi darpariaethau a fydd yn gymwys o ran Prydain Fawr. Gwnaed yr OS â'r teitl uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**[1]**), Erthyglau 11(1)(b)(g), 16(1)(a) ac 16A(2) o Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau (**[2]**) a rheoliad 2(2) o Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019(**[3]**) ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill. Diwygiodd yr OS y ddeddfwriaeth ganlynol i wneud newidiadau yng Nghymru a Lloegr.

([**1**]) 1990 p.16. Diwygiwyd adran 16(1) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd adran 48 gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraffau 7 ac 8 i Atodlen 5 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

([**2**]) EUR 2013/609, a ddiwygiwyd gan EUR 2017/1091, O.S. 2019/651 ac O.S. 2020/1476.

([**3**]) O.S. 2019/651, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1476.

- Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019 (OS 2019/651) fel y’u diwygiwyd,

- Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/52/EEC, Cyfarwyddebau’r Comisiwn 96/8/EC, 1999/21/EC, 2006/125/EC a 2006/141/EC, Cyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor a Rheoliadau’r Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 ac (EC) Rhif 953/2009[1],

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 o 25 Medi 2015 sy’n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy’n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc[Error! Bookmark not defined.], a

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128 o 25 Medi 2015 sy’n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwyd at ddibenion meddygol arbennig.

Mae’r diwygiadau hyn yn:

- diweddaru’r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru’r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer sinc mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru’r ffurfiau o niasin a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys nicotinamid ribosid clorid
- diweddaru’r ffurfiau o fagnesiwm a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys magnesiwm citrad malad
- diweddaru’r ffurfiau o ffolad a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- diweddaru’r ffurfiau o ffolad a ganiateir i’w defnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi’u seilio ar rawn a bwydydd babanod i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- safoni’r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a
- safoni’r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron Senedd y DU ar (14 Ionawr) i ddod i rym ar 10 Chwefror 2023, ac eithrio’r diwygiad i ddiweddaru’r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd, a ddaw i rym ar 10 Awst 2024 i ganiatáu cyfnod pontio 18 mis.

**1** Rheoliad yr UE a ddargedwir fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019 a 2020

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru
SeneddLJC@senedd.cymru
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2023

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2022 ynghylch y Rheoliadau uchod. Yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2023, trafododd y Pwyllgor eich ymateb, a'ch gohebiaeth â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ddiweddar. Yn dilyn ein trafodaeth, byddem yn falch pe bae'ch yn egluro'r materion a ganlyn (gan gynnwys, pan fo'n briodol) lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cael ei osod ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

**Amseriad y rheoliadau**

Yn ôl eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2022, byddai'r Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2022, a byddent yn dod i rym ar 18 Ionawr 2023. Yn eich llythyr dilynol ar 20 Rhagfyr 2022, nodir y caiff y Rheoliadau eu gosod "ym mis Rhagfyr". Nodwyd yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2023 nad yw'n ymddangos bod y Rheoliadau wedi'u gosod eto.

1. A allech chi gadarnhau pryd y disgwylir i'r Rheoliadau gael eu gosod a phryd y byddant yn dod i rym?

2. A allech chi ddweud pam mae'r Rheoliadau wedi'u gohirio, ac a fydd hynny'n arwain at unrhyw ganlyniadau?

**Ymwahanu â Gogledd Iwerddon**

Yn ôl eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr 2022, ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol o ymwahanu â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ran rhwystrau i fasnach neu iechyd cyhoeddus.

3. A allech chi egluro a fydd safonau'n wahanol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau'n eu cyflwyno?

**Deddfwriaeth ddwyieithog**

Yn eich llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr, fe wnaethoch ateb cwestiwn 3 yn y llythyr a anfonodd y Pwyllgor atoch, dyddiedig 1 Rhagfyr 2022, drwy egluro eich bod yn ystyried gwahanol opsiynau i fwrw ymlaen â'r diwygiadau arfaethedig, gan gynnwys yr opsiwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'i Hofferyn Statudol ei hun Fodd bynnag, ni nodwyd a fydd y ddeddfwriaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac a oedd y goblygiadau o ran hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru yn ffactor yn eich ystyriaethau.

4. Os Llywodraeth y DU fyddai'n gwneud y rheoliadau, a ystyriwyd a fyddai hynny'n effeithio ar hygyrchedd y gyfraith ac ar y gallu i sicrhau bod deddfwriaeth ddwyieithog ar gael?

**Ymgynghori â rhanddeiliaid**

Yn eich ymateb i lythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rydych yn egluro bod Llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid penodol dros gyfnod o dair wythnos ynghylch y newidiadau arfaethedig.

5. A allech chi roi manylion y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, a sut y caiff unrhyw ymatebion eu hadlewyrchu yn y Rheoliadau?

**Diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau**

Diolch am y wybodaeth a gawsom gennych am y sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau. Rydym yn falch o ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'i Rheoliadau ei hun mewn perthynas â bwyd babanod.

Nodwn yn y bydd un diwygiad yn diweddaru'r diffiniad o weddillion plaladdwyr yn y derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 ac yn defnyddio'r diffiniad mwy cyfyng a nodir mewn rheoliad cynharach (Rheoliad (EC) Rhif 396/2005).

6. A allech chi roi rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros ddefnyddio'r diffiniad mwy cyfyng hwn, a beth fyddai goblygiadau newid o'r fath?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb **erbyn 24 Ionawr 2023**.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr.

Byddaf yn ymdrin â phob pwynt yn ei dro.

**A allwch egluro pam eich bod yn credu y byddai rheoliadau dwyieithog ar wahân ar gyfer Cymru yn unig, a wneir ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, yn arwain at "[g]ymhlethdod diangen o'r llyfr statud"?**

Ystyriais ddewisiadau ar gyfer bwrw ymlaen â'r Rheoliadau diwygio arfaethedig, gan gynnwys y dewis i Lywodraeth Cymru ddrafftio Offeryn Statudol (OS) ei hun sy'n rhoi sylw i'r holl ddiwygiadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill Prydain Fawr a'r UE, a gallu gorfodi yn unol â'r rhain, y tro hwn teimlwyd bod angen bwrw ymlaen ar y sail hon. Mae'r OS arfaethedig hwn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau presennol yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd.

Nid yw cydsynio i'r Offeryn Statudol hwn ar gyfer Prydain Fawr wedi atal Gweinidogion Cymru rhag dilyn trywydd gwahanol ar ôl cael unrhyw gais o'r fath yn y dyfodol, pe ystyrid bod cyfiawnhad dros ddull arall a/neu fod dull arall yn well.

**A fyddech cystal â chadarnhau bod y Rheoliadau yn offeryn statudol ar gyfer Prydain gyfan a'u bod wedi'u bwriadu, o'ch safbwynt chi, i fod yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol Prydain Fawr yn hytrach na fframwaith i Gymru neu, fel y mae eich llythyr yn ei awgrymu, fframwaith y DU?**

Mae'r Offeryn Statudol hwn ar gyfer Prydain Fawr yn gwneud mân ddiwygiadau ac yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol i Brydain Fawr. Mae hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â diwygiadau deddfwriaethol blaenorol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen diwygiadau hefyd drwy'r Rheoliadau Bwyd Babanod yng Nghymru gan Weinidogion Cymru, drwy ddeddfwriaeth Gymreig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**A yw’r holl ddeddfwriaeth yn y maes polisi hwn yn gymwys ledled Prydain Fawr neu a oes gwahaniaethau?**

Nid yw’r holl ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn cael ei gwneud ar sail Prydain Fawr gan fod rhai pwerau gwneud rheoliadau wedi’u trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Yn yr achosion hynny, byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau diwygio penodol i Gymru.

**Mae eich llythyr yn cyfeirio at welliannau sy’n cael eu gwneud. A allwch roi manylion mwy penodol am bob un o’r gwelliannau hyn (gan fod y termau “diweddaru” a “safoni” yn gymharol annelwig)?**

Bydd y diwygiadau hyn yn cywiro gwallau: diweddaru’r unedau mesur ar gyfer labelu sinc mewn atchwanegiadau bwyd, a diwygiad a gollwyd yn flaenorol i ychwanegu sinc clorid a bisglycinad fferrus fel ffynonellau a ganiateir o fitaminau a mwynau i’w defnyddio mewn bwydydd babanod wedi’u prosesu (bwydydd babanod) (mae’r olaf yn berthnasol i Loegr yn unig yn y Rheoliadau hyn gan y bydd Rheoliadau ar wahân, ar gyfer Cymru yn unig, yn gwneud y newidiadau cyfatebol i Gymru); i ddefnyddio gwahanol ffynonellau ar gyfer rhai fitaminau a mwynau i’w hychwanegu at atchwanegiadau bwyd, bwydydd babanod a fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol; ac i sicrhau cysondeb o ran labelu rhwng atchwanegiadau bwyd a mathau eraill o fwyd sy’n cynnwys copr. Bydd y diffiniad o weddillion plaladdwyr yn cael ei ddiweddaru o’r derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 (ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad) i ddiffiniad mwy manwl gywir o weddillion a gymerwyd o Reoliad (EC) Rhif 396/2005 (ynghylch y lefelau uchaf o weddillion plaladdwyr mewn bwyd a bwyd anifeiliaid sy’n dod o blanhigion ac anifeiliaid, neu ar fwyd a bwyd anifeiliaid o’r fath). Bydd hyn yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb â’r diffiniad sy’n cael ei ddefnyddio yn y ddeddfwriaeth ar gyfer bwyd cyffredinol.

**Beth yw’r rhesymeg dros wneud y gwelliannau a nodir yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?**

Pwrpas y diwygiadau hyn yw sicrhau cysondeb parhaus â Phrydain Fawr a’r UE ar y materion hyn.

**Beth yw eich barn ynghylch a fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at fod yn wahanol i safonau’r UE ar gyfer cynhyrchion tebyg?**

Mae’r UE wedi gwneud deddfwriaeth i wneud yr un diwygiadau sydd eisoes yn gymwys mewn rheoliadau maeth cyfatebol ar draws yr UE.

**Beth yw eich barn ynghylch a yw’r Rheoliadau yn gwella safonau bwyd cyn Brexit?**

Mae’r diwygiadau hyn yn dechnegol o ran natur ac yn cywiro gwallau yn unig, gan anelu at ddiogelu grwpiau penodol o ddefnyddwyr hyglwyf drwy reoleiddio cynnwys a dull marchnata cynhyrchion bwyd sydd wedi’u creu a’u marchnata iddynt hwy yn benodol, sy’n cyd-fynd â’r UE ar y materion hyn.

**A allwch gadarnhau a gafodd y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r Fframwaith neu'r Fframweithiau Cyffredin perthnasol ac, os felly, pa rai?**

Do, trafodwyd y dull ar y cyd fel rhan o'r Gweithgor ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth. Ar 9 Mawrth 2021, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/46/EC i ganiatáu i fagnesiwm citrad malad fod yn ffurf ar fagnesiwm clorid ac i nicotinamid ribosid clorid fod yn ffurf ar niasin a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd. Yn dilyn y newid deddfwriaethol hwn yn yr UE, bu'r grŵp polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth yn ystyried y diwygiadau, ac, yn dilyn asesiad risg a phrosesau rheoli risg a nodir yn y fframwaith ar gyfer Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth (gan gynnwys asesiad gwyddonol), cafwyd cydsyniad gweinidogol yng nghyd-destun Prydain Fawr i awdurdodi nicotinamid ribosid clorid fel ffurf ar niasin a magnesiwm citrad malad fel ffurf ar fagnesiwm y gellir eu defnyddio mewn atchwanegiadau bwyd.

**Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo hygyrchedd y ddeddfwriaeth hon i'r rhai y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys dinasyddion Cymraeg eu hiaith o ystyried bod y Rheoliadau yn Saesneg yn unig?**

Mae'r Rheoliadau wedi'u hanelu at fyd busnes a gweithgynhyrchu cynhyrchion ac maent yn dechnegol eu natur, ond bydd gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei wneud gyda'r rhanddeiliaid perthnasol a bydd gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei darparu ar wefan Llywodraeth Cymru.

**A allwch gadarnhau pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal â rhanddeiliaid Cymru ar y Rheoliadau hyn?**

Ar y cyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, lansiodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ymgynghoriad tair wythnos ledled y DU, gan wahodd sylwadau ynghylch y dull gweithredu arfaethedig oddi wrth y diwydiant bwyd a maeth, grwpiau cynrychioliadol, y cyhoedd, a phartïon eraill â buddiant.

**Sut yr effeithir ar y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU yn dod yn gyfraith, yn enwedig os oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?**

Rydym mewn trafodaethau cynnar â Llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch goblygiadau'r Bil hwn ond nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ymwahanu o ran polisi.

**Wrth gytuno i reoliadau ar gyfer Prydain gyfan, pa drafodaethau a gawsoch ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a beth oedd y canlyniad?**

Ni chafodd hynny ei ystyried fel rhan o'r OS diwygio hwn. Fodd bynnag, mae'r grŵp polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth wrthi'n ystyried y ffordd orau o drafod dyfodol y gwaith ynghylch Biliau Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Phrotocol Gogledd Iwerddon, ac a ddylid gwneud hyn drwy'r grŵp presennol neu drwy is-grŵp ar wahân gyda'r cydweithwyr priodol.

**O ystyried bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i'r cymal machlud ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a wnaethoch ystyried gwneud deddfwriaeth ar wahân i Gymru y tu allan i fframwaith y Bil?**

Nid ystyriwyd gwneud deddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru y tu allan i’r fframwaith. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn y maes hwn yn destun cymal machlud a’i bod, yn hytrach, yn cael ei chadw neu ei “chymathu” o dan y Bil.

**A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailedrych ar y Rheoliadau hyn os daw Bil Cyfraith yr UE yn gyfraith?**

Nac ydy. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ailedrych ar y Rheoliadau hyn.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/20/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

19 Ionawr 2023

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am drydydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a gynhelir ar 1 Chwefror 2023.

Byddaf yn cadeirio cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog. Yn y cyfarfod rhithwir hwn rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y DU, gan gynnwys Cyfraith yr UE a Ddargedwir, confensiwn Sewel a Fframweithiau Cyffredin.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Department for Levelling Up, Housing & Communities

**Rt Hon Michael Gove MP**
*Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities*
*Minister for Intergovernmental Relations*
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

Our Reference:22092131

Huw Irranca-Davies
Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

24 January 2023

Dear Huw,

**INTERGOVERNMENTAL RELATIONS**

Thank you very much for your letter of 4 November regarding Government legislation that includes devolved matters. I apologise for the delay in replying.

I would like to reiterate that I appreciate the work your committee puts into scrutinising that legislation and I recognise the importance of there being appropriate time available for your committee, and others, to carry out that work thoroughly.

As you note, my officials provide extensive guidance and support to bill teams across UK Government regarding engagement with officials in the Welsh Government. The information contained in the Devolution Guidance Notes certainly informs that work, as does the Memorandum of Understanding between the Government and devolved administrations, and the Guide to Making Legislation. Guidance and support is then adapted to the specific circumstances of each bill and, where relevant, would cover how to handle proposed amendments.

As you will know from your own work in the Senedd, legislation timetabling is often subject to change and must be managed carefully alongside other demands on the legislatures' time. My officials are not responsible for scheduling a bill's passage through Parliament. They do, however, offer advice on how to handle bill timings in the context of engaging with the devolved administrations.

You also asked about the circumstances in which the Government would include devolved matters within its legislation. The content of UK Government legislation is determined according to policy priorities and bills can touch on devolved matters to create consistent UK wide legislation in line with those priorities. You are right, of course, that including devolved matters within a UK Government bill potentially frees up time for the devolved legislatures, as this means the devolved administrations will not need to progress their own legislation on the same matter. Whilst not the primary aim of Government legislation, we recognise this can be an important secondary benefit and are open to engagement on this with the Welsh Government. UK-wide legislation, rather than separate legislation affecting each of the home nations, can of course also improve the simplicity of the legislative 'landscape' across the UK, aiding business and citizens. But we recognise that this is not always possible or desirable.

Any legislation which includes devolved matters would of course be subject to the Sewel Convention and the Government is fully committed to both that Convention and the associated practices for seeking consent. These processes necessarily involve communication between the two governments and any ministerial or official correspondence would be subject to the usual rules which the UK and Welsh Governments follow in relation to releasing information.

The Government will continue to work with colleagues in the Welsh Government on legislation where it affects devolved matters.

Thank you again for your correspondence.

**RT HON MICHAEL GOVE MP**

**Secretary of State for Department for Levelling up, Housing and Communities**
**Minister for Intergovernmental Relations**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Michael Gove AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

4 Tachwedd 2022

Annwyl Michael

Cysylltiadau rhynglywodraethol

Llongyfarchiadau ar eich penodiad diweddar fel Ysgrifennydd Gwladol.

Fel y byddwch yn ymwybodol o'n gohebiaeth yn gynharach eleni, mae fy Mhwyllgor (a'i ragflaenydd) wedi treulio cryn dipyn o amser yn craffu ar sut mae llywodraethau yn y DU yn cydweithio ac edrychwn ymlaen at gynnal perthnasoedd cynhyrchiol â chi wrth inni barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, ynglŷn â chynigion ar gyfer Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig a chafwyd ymateb [Saesneg yn unig] defnyddiol ym mis Awst 2022.

Mae nifer o bwyntiau y byddem yn croesawu rhagor o eglurder yn eu cylch.

Gwnaethom ofyn nifer o gwestiynau penodol ynghylch ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar gychwyn trafodaethau, amserlennu, a gwelliannau i Filiau'r DU. Wrth ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> *"My officials proactively provide guidance and support on engagement to UK Government bill teams throughout a bill's development and parliamentary passage. Engagement at official level should take place when developing policy which could affect devolved matters, and this engagement should continue throughout the bill's passage, including the sharing of information to allow devolved government counterparts to make informed policy decisions. This*

*engagement is also important to identify where a UK government bill can include provisions within a devolved legislature's competence and enable timely pragmatic solutions to policy challenges to deliver for people of Wales freeing up devolved legislatures time whilst respecting their legislative competence via the legislative consent process."*

Byddem yn ddiolchgar o gael gwybod a yw'r canllawiau y cyfeirir atynt o natur ffurfiol, yn debyg i, er enghraifft, nodiadau canllaw ar ddatganoli neu gytundeb rhynglywodraethol, a hefyd a ydynt yn ymdrin â chyngor penodol ar amserlennu a'r cytundeb rhwng llywodraethau ar welliannau arfaethedig. Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ni er mwyn helpu i ddeall sut y gallwn ni, a phwyllgorau eraill y Senedd, ymdrechu i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a basiwyd yn Senedd y DU y byddem mewn llawer o achosion yn disgwyl iddi gael ei gwneud gan y Senedd.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod pam nad yw'r canllawiau y cyfeirir atynt bob amser yn cael eu dilyn (gweler ein llythyr gwreiddiol) a sut y gellir osgoi'r sefyllfa hon yn y dyfodol. Gall y diffyg ymgysylltu gael effaith ar ein gallu ni, a gallu'r Senedd, i gynnal gwaith craffu, sydd eisoes wedi'i gyfyngu gan y defnydd o Fil ar lefel y DU yn hytrach nag un yng Nghymru. Er enghraifft, o ran, er syndod, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, dim ond yn ddiweddar rydym wedi cael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru tua 4 mis ar ôl i'r Bil gael ei osod yn Senedd y DU, gan "nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu fawr ddim […] cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ac oherwydd bod y Bil yn un cymhleth" (paragraff 3 o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol).

Mae hyn yn codi nifer o faterion:

1. A yw'r mater o nodi pryd y gall Bil Llywodraeth y DU gynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwrfa ddatganoledig yn ddarostyngedig i unrhyw fath o gytundeb rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

2. Lle ceir cytundeb rhwng llywodraethau, er enghraifft ar Fil Caffael Llywodraeth y DU, a fydd gohebiaeth Weinidogol yn cael ei chyfnewid i gytuno'n ffurfiol ar y safbwynt hwn ac, os felly, a oes unrhyw gyfyngiad y cytunwyd arno ar gyhoeddi gohebiaeth o'r fath a'i rhannu â'r seneddau perthnasol?

3. Ai safbwynt cytûn ac egwyddorol Llywodraeth y DU yw y dylai geisio rhyddhau amser yn y deddfwrfeydd datganoledig drwy gynnig deddfwriaeth ar lefel y DU (neu Brydain Fawr neu Gymru a Lloegr)?

4. Os mai dyma safbwynt Llywodraeth y DU, ar ba sail yr ydych wedi gwneud yr asesiad hwn, pam yr ydych yn ystyried hynny'n briodol, ac at ba ddiben?

5. A yw Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Llywodraeth y DU a defnyddio 'rhyddhau amser yn y deddfwrfeydd datganoledig' fel cyfiawnhad yn ystod trafodaethau ar gynnwys 'darpariaethau ar gyfer Cymru' ym Miliau'r DU?

6. A yw’n wir mai’r hyn sy’n digwydd fwyaf aml yw bod Llywodraeth y DU yn gwneud cynnig i Lywodraeth Cymru i gynnwys darpariaethau mewn maes datganoledig o fewn Bil ar lefel y DU, neu a yw Llywodraeth Cymru yn gofyn yn rheolaidd am ddarpariaeth o’r fath?

7. A oes unrhyw amgylchiadau lle byddai Llywodraeth y DU yn ystyried ei bod yn amhriodol cynnwys darpariaethau mewn Bil ar lefel y DU o fewn cymhwysedd deddfwrfeydd datganoledig? A allwch roi enghraifft?

8. A oes unrhyw amgylchiadau lle byddai Llywodraeth y DU yn gwrthod cais gan Lywodraeth Cymru i gynnwys darpariaeth mewn Bil ar lefel y DU o fewn cymhwysedd deddfwrfeydd datganoledig? A allwch roi enghraifft?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb o fewn chwe wythnos i ddyddiad y llythyr hwn.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Eitem 7.2

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS,
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

16 Ionawr 2023

Annwyl Rebecca,

Amgaeaf gopi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, rydym yn disgwyl i'r Gweinidog ymateb i argymhellion y Gweinidog yn ystod dadl yfory ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Byddem hefyd yn croesawu ymateb ysgrifenedig, manylach cyn gynted â phosibl (ac o fewn 30 o ddiwrnodau gwaith fan bellaf ar ôl dyddiad cyhoeddi'r adroddiad, sef 24 Chwefror 2023).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Y Gweinidog Newid Hinsawdd; Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddfwriaeth, Pwyllgor Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Ionawr 2023

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

Diolch am eich adroddiad ar y Memorandwm ar gyfer Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022. Gweler yr ymateb sydd ynghlwm i'r argymhelliad.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â'r Memorandwm ar gyfer Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022 – Tachwedd 2022**

Gosododd Llywodraeth y DU fersiwn ddrafft o Orchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022 (y Gorchymyn) gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref 2022[1].

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth o ran allyriadau at ddiben adrodd ar garbon o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Y canlyniad yw y caiff allyriadau $NF_3$ [nitrogen trifflworid] eu cynnwys ymhlith yr allyriadau a gofnodir ar gyfer Datganiad Allyriadau Blynyddol 2021, cyfnod cyfrifo llawn Trydedd Gyllideb Garbon y DU (2018–2022), a chyllidebau carbon y DU wedi hynny.

Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth gymwys") mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Ar 21 Hydref, gosodais Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm) gerbron y Senedd ar gyfer y Gorchymyn, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, ac ysgrifennais at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiad ar y Memorandwm ar gyfer y Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu). Rwy'n arbennig o falch o weld eu bod yn fodlon ar y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhelliad unigol yr Adroddiad isod.

**Mae'r ymateb i argymhelliad yr adroddiad wedi'i nodi isod:**

**Argymhelliad 1.** Argymhelliad y Pwyllgor oedd:

Y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 i ofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth cymwys yng Ngorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022.

**Ymateb – Gwrthod**

Mae'r Gorchymyn yn sicrhau bod y darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn fy marn i nid oedd yn newydd nac yn ddadleuol. O'r herwydd ni wnes gyflwyno cynnig ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn unol â'r sefyllfa a amlinellir yn llythyr Prif Weinidog Cymru dyddiedig Tachwedd 2020, ac mewn cydymffurfiaeth â gofynion Rheol Sefydlog 30A. O'r herwydd cafodd y Gorchymyn ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 11 Ionawr.

---

[1] The Climate Change (Targeted Greenhouse Gases) Order 2022 (senedd.wales)

Fodd bynnag, rwy’n nodi pryderon y Pwyllgor o ran y prosesau hyn ac yn benodol rwy’n nodi’r ohebiaeth ddiweddar gan y Pwyllgor ynghylch sicrhau eglurhad o ran Rheol Sefydlog 30A. Wrth gwrs mi fuaswn i’n croesawu cyfleoedd pellach i drafod unrhyw eglurhad o’r fath neu adolygiad o Reol Sefydlog 30A.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/14/2023

Members of the House of Lords

17 January 2023

**Welsh Government Briefing on UK Primary Legislation**

Dear Members of the House of Lords

On 9 January I met with members of the House of Lords to provide a briefing session on Welsh Government's position on the UK Legislative Programme and its impact in Wales. I am very grateful to those Members who were able to attend and contribute to that session, and hope that they, and others who were unable to join the meeting, will find the information attached to this letter helpful.

The importance of the House of Lords in safeguarding our constitution and the integrity of the devolution settlement cannot be understated. I remain deeply grateful in this context for the efforts of Members in seeking to ensure that UK Government legislation fully respects devolution and the Sewel Convention. I welcome further engagement with Members on Wales' interests in the UK Legislative Programme and would be very happy to attend future sessions with you.

I am copying this letter to the First Minister of Wales, and to the Llywydd and the Chair of Legislation, Justice and Constitution Committee of the Senedd.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Overview of Welsh Government positions on UK Primary Legislation**

1. **The UK Government's legislative programme is significant for the Welsh Government and for Wales**:

    a. Bills on non-devolved matters often apply to Wales and in many cases have a significant impact on our economy or the wellbeing of people in Wales.

    b. Bills relating to devolved matters necessarily impact very directly in Wales and, as a matter of constitutional principle, also require the consent of the Senedd in line with the Sewel Convention (that is, that the Parliament of the United Kingdom will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Senedd).

2. The Welsh Government have serious concerns about UK Government's adherence to principles of devolution, compliance with the Sewel Convention, and with effective inter-governmental working.

3. **Effective engagement** by UK Government with Welsh Government is one of the biggest obstacles to the smooth operation of the current legislative consent process. Whilst there have been some positive experiences, the position generally is one of poor engagement. This places significant constraints on our ability to consider legislation in a timely manner, as well as the ability of the Senedd to scrutinise legislation. Whilst there have been some improvements more recently by UK Government, the lack of engagement prior to the introduction of the Minimum Service Levels Bill is an unfortunately familiar example.

4. The number of occasions where the UK Government did not respect the **Sewel Convention** in recent Parliamentary sessions is unacceptable and completely unjustified by circumstances. We believe that the Sewel Convention needs codification. At the very least, UK Government should set out the decision-making process they go through when they come to a decision to that a situation is 'not normal'.

5. **In this current session, several specific Bills give cause for concern.** The Senedd has refused consent to the Northern Ireland Protocol Bill. Whilst the Senedd has not yet voted and these are ongoing issues, Welsh Government has also currently recommended consent be withheld in relation to the Trade (Australia and New Zealand) Bill, the Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, the Levelling-up and Regeneration Bill and the Retained EU Law Bill. Our detailed position in relation to each of those Bills can be found in the relevant legislative consent memoranda. We have not yet laid a memorandum for the Bill of Rights but have similarly set out our public opposition to the Bill.

6. At the briefing session on 9 January, I set out an overview of my concerns relating to **the Retained EU Law Bill** - a Bill which I'm aware Members share similar concerns on. Those issues include the arbitrary 'sunset' date for legislation, the lack of powers for the Welsh Ministers to extend that sunset date, the harm presented by the 'regulatory burden' restrictions, and the use of concurrent powers.

- **Concurrent powers** – that is, powers which confer the ability to make secondary legislation on both Welsh Ministers and UK Ministers – should not be created in devolved areas. They do not reflect, or respect devolution – they give UK Government powers to act in areas which Parliament has determined are devolved. As a result, they fundamentally change the devolution settlement and the Senedd's legislative competence. However, as seen in the Retained EU Law Bill amongst other Bills, the UK Government have demonstrated a worrying trend in their reliance on concurrent powers. In limited circumstances, concurrent powers might be acceptable; but that is only the case if the ability of a UK Minister to exercise the power in Wales is subject to the consent of the Welsh Ministers.

**Access to Welsh Government and Senedd detailed positions on UK Bills**

7. The Senedd's website hosts a 'legislative consent' page([1]) containing the Welsh Government's legislative consent memoranda, and Senedd Committee reports relating to UK Bills. Our legislative consent memoranda include commentary on whether Bills make appropriate provision for Wales, and as such provide detailed information on areas of concern and engagement between Welsh Government and UK Government. Members may find this information useful when seeking to take part in debates, raising questions and scrutinising the impact of UK Government Bills on Wales.

([1]) https://senedd.wales/senedd-business/legislative-consent/

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/18/2023

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Huw

**CYWIRIADAU I IS-DDEDDFWRIAETH GYMREIG**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr 2022. Rydych wedi codi sawl mater mewn perthynas â slipiau cywiro. Dylwn egluro eu bod yn berthnasol i Offerynnau Statudol (OSau) yn unig, yn hytrach na phob is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cyn troi at eich prif gwestiynau, rwy'n credu y byddai o gymorth i'r Pwyllgor pe bawn yn gwneud rhai pwyntiau cyffredinol:

1. Rydym yn glir iawn mai dim ond drwy ddeddfwriaeth ddiwygio y gellir cywiro camgymeriadau o sylwedd mewn OS, waeth pa mor fân ydynt. Ond mae hefyd yn bwysig, o ran hygyrchedd ein deddfwriaeth, bod camgymeriadau nad ydynt yn rhai o sylwedd yn cael eu cywiro pryd bynnag y mae hynny'n bosibl, os dylid eu cywiro.

2. Wrth ystyried sut i gywiro camgymeriad mewn OS Cymreig, cawn ein llywio'n bennaf gan Statutory Instruments Practice[1] (SIP). Er nad yw SIP yn darparu arweiniad ar OSau Cymru, yn ymarferol bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn y gweithdrefnau a'r egwyddorion a amlinellir yn Rhannau 3 a 4 wrth lunio, cofrestru a chyhoeddi deddfwriaeth.

3. Mae SIP yn amlinellu sawl dull o gywiro camgymeriadau nad ydynt yn rhai o sylwedd, gan ddibynnu ar y gwall ac ar ba bwynt y mae'r OS yn y broses o wneud, cofrestru a chyhoeddi.

[1] Yr Archifau Gwladol (Tachwedd 2017) *Statutory Instrument Practice*, *5$^{ed}$ rhifyn*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Meini prawf ar gyfer ystyried a ddylid gofyn am slip cywiro***

4. Defnyddir slip cywiro pan fydd yr OS wedi'i gofrestru a'i gyhoeddi. Lluniwyd y broses ar gyfer OSau argraffedig, i raddau helaeth iawn. Caiff slipiau cywiro eu cyhoeddi bob tro y bydd rhywun yn prynu fersiwn argraffedig o OS o'r newydd (a'i anfon hefyd at brynwyr hysbys yr OS); cânt hefyd eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiynau digidol o'r OS (cywiredig) ar legislation.gov.uk.

5. Wrth ystyried a ellir gofyn am slip cywiro, byddwn yn ystyried paragraff 4.7.4 o SIP yn gyntaf. Rhoddwn ystyriaeth hefyd i Adroddiad Arbennig y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol, *Transparency and Accountability in Subordinate Legislation*. Mae'r Cyd-bwyllgor yn glir na ddylid defnyddio slip cywiro i gywiro camgymeriadau mewn is-ddeddfwriaeth os ydynt (neu os ydynt o bosibl) yn golygu newid o sylwedd. At hynny, mae'r Cyd-bwyllgor yn nodi yn ei adroddiad y meini prawf ar gyfer penderfynu a yw slip cywiro yn addas:

   - mae'r camgymeriadau yn rhai mân (er enghraifft, gwall teipio nad yw'n effeithio ar sylwedd yr ystyr);
   - mae'r camgymeriadau yn rhai amlwg;
   - mae testun a lleoliad y cywiriadau yr un mor amlwg, ac
   - mae'r cywiriadau yn rhai mân.

***Cywiro wrth wneud, wrth gofrestru ac wrth gyhoeddi – y broses, y meini prawf a rôl y Cofrestrydd OSau***

6. Mae eich gohebiaeth yn cyfeirio at 'gywiro wrth wneud' a 'chywiro wrth gyhoeddi', sydd ill dau yn dermau sy'n cael eu defnyddio er hwylustod gan y Llywodraeth ac felly gan y Pwyllgor hefyd, ond nad ydynt yn ddisgrifiadau cwbl fanwl gywir o'r pwynt y gwneir y cywiriadau. Rwy'n ymdrin â hyn yn fwy manwl isod, ond mae canlyniad y ddwy broses yr un fath – caiff y gwall ei gywiro cyn cyhoeddi gan sicrhau bod yr OS cywiredig ar gael ar ffurf argraffedig, heb slip cywiro ychwanegol, a bod y fersiwn digidol ar legislation.gov.uk yn adlewyrchu ffurf derfynol yr OS.

7. Bydd 'cywiro wrth wneud' yn digwydd cyn i'r Gweinidog perthnasol wneud yr OS. Os ystyrir bod y cywiriad yn un y gellir ymdrin ag ef drwy slip cywiro (mater a drafodir â'r Cofrestrydd OSau fel arfer, os yw ar gael) neu os yw'n fater y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w gywiro cyn gwneud yr OS – er enghraifft pan fydd y Senedd yn ystyried OS sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol ddrafft – yna caiff yr OS drafft ei gywiro cyn ei gyflwyno ar gyfer ei wneud. Wedyn caiff y fersiwn "fel y'i gwnaed" ei gofrestru yn y ffordd arferol.

8. Mae cywiro wrth gyhoeddi yn derm a ddefnyddiwn yn aml, ond yn ymarferol mae'n cyfeirio at gywiro fel rhan o'r broses gofrestru. Mewn achosion o'r fath rydym yn dilyn yr arweiniad ym mharagraff 4.7.13 o SIP, sy'n nodi:

   *If it is in the nature of something that could be covered by a correction slip… this can be remedied.*

9. Prin iawn yw'r amser sydd ar gael i wneud hyn – ychydig oriau yn unig fel rheol – ac ymdrinnir â'r mater drwy drafod â'r Cofrestrydd OSau unwaith y mae'r OS wedi'i gyflwyno ar gyfer ei gofrestru ond cyn bod y cofrestriad wedi'i gwblhau.

10. Os yw OS wedi'i gofrestru ond heb ei gyhoeddi eto, mae SIP yn ei gwneud yn glir y bydd angen cywiro'r camgymeriadau ar ôl cyhoeddi (yn y modd priodol gan ddibynnu ar natur y camgymeriad).

*Camgymeriadau mewn offerynnau cadarnhaol drafft*

11. Ar y cyfan, os yw'r camgymeriad yn un y gellid defnyddio slip cywiro i'w gywiro, yna byddai'n well gennym ymdrin â hynny drwy ei gywiro wrth (h.y. cyn) ei wneud. Os yw'n fater mân iawn, ond heb fod yn un a fyddai'n addas ar gyfer slip cywiro, o angenrheidrwydd, yna efallai y byddwn hefyd yn ceisio ymdrin â'r mater hwn wrth (h.y. cyn) ei wneud. Gall y Gweinidog dynnu sylw'r Aelodau at y materion hyn naill ai mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor neu yn ystod y ddadl ar yr offeryn.

12. Ar gyfer materion sydd â mwy o sylwedd, yna byddwn naill ai'n ceisio tynnu'r offeryn yn ôl a'i ailosod, neu os nad oes digon o amser ar gyfer hynny, efallai y byddwn yn ymrwymo i gyflwyno offeryn diwygio.

13. Mae'n amlwg fod y dull y mae angen inni ei fabwysiadu yn dibynnu ar y gwall a nodwyd, yr elfen o frys sydd ynghlwm â gwneud yr offeryn, a'r amser sydd ar gael i ddatrys y mater. Yn yr achosion hyn bydd bob amser yn well gennym gywiro'r offeryn drafft a'i ailosod gerbron y Senedd. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr adegau hynny y mae wedi cytuno i ystyried yr Offeryn Statudol diwygiedig yn fwy cyflym.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru@seneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad:

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Mick

Cywiriadau i Is-ddeddfwriaeth Gymreig

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae fy Mhwyllgor wedi cael nifer o ymatebion gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiadau ar is-ddeddfwriaeth a wnaed (neu sydd i'w gwneud) gan Weinidogion Cymru; dywedir yn yr ymatebion y bydd camgymeriadau yn cael eu cywiro drwy ofyn i Gofrestrydd yr OSau am slipiau cywiro, neu y bydd cywiriadau yn cael eu cyflwyno cyn i'r offeryn gael ei wneud neu ei gyhoeddi ar legislation.gov.uk.

Yn fwyaf nodedig, mae hyn wedi digwydd mewn perthynas â Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022, a Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022.

O ran Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (offeryn gwneud negyddol), cawsom ymateb cychwynnol i'n hadroddiad ar 2 Tachwedd, lle dywedwyd wrthym y byddai slip cywiro yn cael ei geisio gan Gofrestrydd yr OSau i fynd i'r afael â dau fater technegol a godwyd gennym yn ein hadroddiad. Ar 8 Rhagfyr, cawsom ymateb dilynol mewn perthynas â'r pwynt technegol cyntaf yn ein hadroddiad a oedd yn nodi "Mae Cofrestrydd yr OSau bellach wedi cadarnhau nad yw slip cywiro yn briodol ar gyfer cywiro'r newid yn y teitl. Bydd Offeryn Statutol sy'n cywiro yn cael ei wneud felly yn hytrach na slip cywiro." Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud Rheoliadau diwygio.

Mewn perthynas â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

UE) 2022 (offeryn cadarnhaol drafft), nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, a gafwyd ar 13 Rhagfyr, y byddai 12 camgymeriad yn cael eu cywiro wrth i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Nodwyd bod angen offeryn diwygio ar gyfer dau gamgymeriad arall. Yn y ddadl ar y Rheoliadau hyn ar 13 Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog y byddai'r 12 camgymeriad yn cael eu "cywiro wrth eu cyhoeddi".

Yn olaf, mewn perthynas â Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (offeryn cadarnhaol drafft), cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cymru y byddai dau fater technegol yn cael eu cywiro drwy slip cywiro, ond bod angen offeryn cywiro ar gyfer y tri arall. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y safbwynt hwn yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau hyn yn y Senedd ar 13 Rhagfyr.

Mae ein hystyriaeth o'r Rheoliadau uchod, a'r ymatebion a gawsom gan Lywodraeth Cymru, yn codi cwestiynau am brosesau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer penderfynu sut a phryd y gellir ac y dylid gwneud cywiriadau i is-ddeddfwriaeth Gymreig.

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu manylion penodol am y canllawiau a'r gweithdrefnau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth benderfynu pa un a ddylai wneud offeryn statudol cywiro, cywiro camgymeriad wrth wneud / wrth gyhoeddi, neu wneud cais i Gofrestrydd yr OSau am slip cywiro. Yn benodol, a fyddech cystal â chadarnhau'r hyn a ganlyn:

1. Pa feini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gofyn am slip cywiro gan Gofrestrydd yr OSau?

2. A yw "cywiro wrth wneud" yr un fath â "chywiro wrth gyhoeddi"? Pryd yn union, yn ystod y broses o wneud a chyhoeddi offeryn y mae cywiriadau o'r fath yn cael eu gwneud? O ran cywiro wrth wneud / wrth gyhoeddi, a yw cywiriadau'n cael eu nodi mewn dogfen gan Lywodraeth Cymru neu'r Archifau Gwladol sy'n cyd-fynd â hynny, ac a fyddai'r ddogfen honno ar gael yn gyhoeddus?

3. Pa feini prawf sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth benderfynu a ddylid cywiro camgymeriad wrth wneud / wrth gyhoeddi?

4. A oes gan Gofrestrydd yr OSau rôl o ran penderfynu a ellir cywiro camgymeriad wrth wneud / wrth gyhoeddi, ynteu a yw'r penderfyniad yn cael ei wneud gan Weinidog perthnasol Cymru ar gyngor swyddogion Llywodraeth Cymru?

5. Os nodir camgymeriad mewn offeryn cadarnhaol drafft cyn i ddadl yn y Senedd ddigwydd, pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa un a ddylid dibynnu ar slip cywiro (fel yn Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022) neu ar y broses o gywiro wrth wneud / wrth gyhoeddi (fel yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau

Deddfwriaethol) a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022)?

Rydym yn ysgrifennu at Gofrestrydd yr OSau i ofyn yn yr un modd pa reolau sy'n cael eu dilyn wrth benderfynu a ddylid cytuno i slip cywiro neu, os yw'n berthnasol, a ddylid cytuno i geisiadau i wneud cywiriadau wrth wneud / wrth gyhoeddi offeryn.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 18 Ionawr 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac at Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/17/2023

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Huw

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolch unwaith eto i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad manwl ar y Bil, ac am y ffordd gadarnhaol a defnyddiol y cynhaliwyd dadl ddoe. Rwy'n falch iawn bod y Senedd wedi cytuno y dylai'r Bil fwrw ymlaen fel Bil cydgrynhoi ac edrychaf ymlaen at ein trafodaethau yn Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 13 Chwefror.

Cyn y cyfarfod hwnnw, hoffwn amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar argymhellion y Pwyllgor y cyfeiriwyd atom. Byddaf yn ymdrin â'r argymhellion hynny sy'n ymwneud â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gyntaf, cyn troi at argymhellion y cais ehangach:

- Mae **argymhelliad 1** yn ymwneud â chaniatâd Gweinidog y Goron ac, fel y gwnes i roi gwybod i chi ddoe, rydym bellach wedi cael caniatâd ar y ddwy agwedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

- Rydym yn cytuno y dylid adolygu'r gyfraith sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol morol (**argymhelliad 6**), ond bydd rhaid i hyn gael ei ystyried ar ôl gweithredu'r Bil presennol os caiff ei ddeddfu, gan nad yw'r gwaith hwn wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer y tymor Senedd hwn.

- Mae Atodlen 8 i'r Bil yn ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeiladau rhestredig, ac mae Atodlen 10 yn ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion sy'n terfynu cytundebau partneriaeth adeiladau rhestredig. Mae **argymhelliad 7** o adroddiad y Pwyllgor yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid yr Atodlenni hyn i ganiatáu i bartïon â buddiant wneud sylwadau ysgrifenedig ar y materion hyn (nid sylwadau llafar yn unig). Rydym o'r farn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bod y sylfaen dystiolaeth yn cefnogi newid yn y gyfraith i ganiatáu sylwadau ysgrifenedig, ond gan nad yw'r Pwyllgor wedi argymell ei gynnwys yn y Bil hwn, ni fyddwn yn ceisio diwygio'r Bil ar hyn o bryd. Bydd angen nodi cyfrwng addas i ymdrin â'r mater hwn pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny.

- Mae **argymhelliad 8** yn ymwneud â hysbysiadau cadwraeth o dan adran 147 o'r Bil y derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth arno gan un rhanddeiliaid yn dadlau y dylai hyn gael ei dynnu o'r Bil. Yn dilyn yr ymchwil a wnaed ar ôl pasio Deddf 2016 (yr ydym wedi tynnu sylw'r Pwyllgor ati), y cam nesaf o ran pennu a ddylid newid y gyfraith fyddai i Cadw gynnal ymgynghoriad ffurfiol, ond nid yw hyn yn flaenoriaeth i dymor presennol y Senedd a bydd rhaid ei ystyried pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny.

- Rydw i eisoes wedi ymateb i'r Pwyllgor ar **argymhelliad 10,** sy'n ymwneud â'r pŵer i nodi eithriadau o'r sefyllfa gyffredinol yn adran 2(3) o'r Bil bod adeiladau crefyddol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol wedi'u heithrio o'r diffiniad o "heneb" yn Rhan 2 o'r Bil.

- Mae **argymhelliad 11** yn gofyn am eglurhad ar yr ailddatganiad rhannol i'r seiliau ar gyfer gofyn am adolygiad o dan reoliad 4 o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017. Mae Rheoliad 4(b) o'r Rheoliadau hynny yn caniatáu cais am adolygiad ar y sail bod newid i ardal heneb gofrestredig yn cael ei ystyried yn amhriodol. Byddai newid o'r fath ond yn amhriodol os nad yw'r ardal dan sylw o bwys cenedlaethol, felly rydym o'r farn bod hyn eisoes yn cael ei gwmpasu gan y ddarpariaeth yn adran 9(2) o'r Bil. Yn unol â hynny, nid ydym wedi datgan unrhyw sail adolygu arall yn y Bil. Rydym wedi cadw'r pŵer deddfu rhag ofn y bydd ei angen i nodi seiliau newydd yn y dyfodol. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw geisiadau i adolygu penderfyniad Gweinidog Cymru i gofrestru heneb wedi'u gwneud.

- Mae'r Pwyllgor wedi edrych ymlaen at weithredu'r Bil os caiff ei ddeddfu gan Senedd Cymru ac mae'n gofyn am fwy o wybodaeth am is-ddeddfwriaeth arfaethedig (**argymhelliad 12**). Ein hasesiad presennol yw y bydd 8 offeryn statudol a wnaed o dan Ddeddf 1979 a Deddf 1990 yn cael eu cydgrynhoi a'u hailddatgan. Mae yna hefyd dri chyfarwyddyd presennol y bydd angen eu cynnwys yn yr ailddatganiadau hynny. Mae hyn oherwydd y bydd eu pwnc yn cael ei gwmpasu gan reoliadau os caiff y Bil ei basio yn ei ffurf bresennol. Mae nifer yr offerynnau statudol newydd a fydd yn deillio o hynny yn cael ei setlo o hyd, gan y bydd hyn yn dibynnu ar farn am y ffordd orau o gydgrynhoi'r darpariaethau presennol. Yn ogystal, bydd angen gorchymyn cychwyn a diwygiad canlyniadol, a rheoliadau dirymu, trosiannol ac arbedion.

  Er bod y gwaith ar yr offerynnau hyn eisoes wedi dechrau, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn digwydd ar ôl i'r Bil gael ei basio ac yn ystod y cyfnod gweithredu rhwng 2023 a 2026.

  Bydd Cadw yn parhau â'i weithgarwch ymgysylltu rhagweithiol gyda defnyddwyr allweddol y ddeddfwriaeth wrth ei gweithredu; hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:
    - Dosbarthu 9 Diweddariad Amgylchedd Hanesyddol sy'n esbonio'r Bil ac yn adrodd ar ei gynnydd;
    - Diweddaru gwefan Cadw gyda gwybodaeth ddefnyddiol am y Bil, gan gynnwys llinell amser;
    - Cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth gyda thros 100 o gyfranogwyr;
    - Mynychu nifer o gyfarfodydd i roi diweddariadau i randdeiliaid allweddol, partneriaid a defnyddwyr y ddeddfwriaeth ar y Bil.

Mae rhai o argymhellion y Pwyllgor yn mynd y tu hwnt i'r Bil ac, mewn rhai achosion, mae goblygiadau i Filiau diwygio'r gyfraith hefyd:

- Rydym yn cydnabod y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ac **argymhelliad 3** yn ymwneud â gwaith cyn-gyflwyno gyda rhanddeiliaid. Nod llawer o'r gwaith cyn-gyflwyno ar y ddau brif Fil cydgrynhoi sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yw canfod sut mae rhanddeiliaid yn deall ac yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth bresennol. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar elfennau arwahanol o ddrafftio arfaethedig i sicrhau, lle mae unrhyw elfen o amheuaeth, fod y sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal.

  Fel egwyddor gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau y bydd canlyniadau unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar ddeddfwriaeth yn cael eu cyhoeddi, yn ogystal â chrynodeb o'r rhyngweithio allweddol gyda rhanddeiliaid. Ond mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ac eraill ar ddatblygu unrhyw Fil, gan gynnwys Bil cydgrynhoi, yn aml yn cael ei wneud yn gyfrinachol a heb y disgwyliad y bydd manylion llawn yn cael eu cyhoeddi. Weithiau, mae hyn oherwydd bod rhanddeiliaid yn gofyn i'w safbwyntiau beidio â chael eu cyhoeddi, ac na fyddant yn ymgysylltu'n llawn oni cheir cadarnhad o hyn.

  Fodd bynnag, byddwn yn dysgu o'r Bil cydgrynhoi cyntaf hwn ac yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn prosiectau yn y dyfodol.

- Mae **argymhelliad 4** yn ymwneud â chydgrynhoi Mesurau a Deddfau'r Senedd. Rwy'n cydnabod bod diddordeb arbennig yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei deddfu gan y Senedd, ond mae ganddi'r un statws â deddfwriaeth sy'n cael ei deddfu gan Senedd y DU. Felly, rwy'n teimlo y dylid ymdrin â hi mewn ffordd debyg, o ran arfer y cydgrynhoi a datblygu'r deunyddiau ategol. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau bod Memoranda Esboniadol yn y dyfodol i gydgrynhoi Biliau yn ei gwneud hi'n glir pan fydd darpariaethau Mesur neu Ddeddf y Senedd yn cael eu hymgorffori.

- Mae **argymhelliad 5**, ar y llaw arall, yn ymwneud â deddfwriaeth nad yw'n cael ei hymgorffori mewn Bil Cydgrynhoi. Mae eich craffu ar y Bil cydgrynhoi cyntaf hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod Rheol Sefydlog 26C yn nodi y gallai'r Pwyllgor ystyried cwmpas y cydgrynhoi, ond mae'r gofynion ar gyfer y ddogfennaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn y Bil yn unig. Byddwn yn ystyried pa wybodaeth ddefnyddiol y gellir ei rhoi i Filiau'r dyfodol i gynorthwyo ystyriaethau'r Pwyllgor.

  Does dim categorïau pendant o bynciau yn y gyfraith. Mae'n anochel bod y cwestiwn o'r hyn mae Bil cydgrynhoi yn ei gwmpasu yn fater o farn ac yn dechrau o'r hyn y mae'n briodol ac yn ymarferol ei gynnwys. Cydnabuwyd cymhlethdod hyn gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor sy'n cefnogi'r ffordd y deliodd y Llywodraeth â hyn (fel y noda'r Pwyllgor ym mharagraff 148 yn yr adroddiad). Bydd yna wastad gysylltiadau a rhyngweithiadau â'r gyfraith nad ydynt yn cael eu cydgrynhoi.

  Fel y cydnabyddir yn y Rheolau Sefydlog, rhan o'r broses graffu yw llunio barn ar gwmpas Bil cydgrynhoi. Yn achos penodol y Bil hwn, esboniodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol pa gyfraith sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, ac mae'r ymgysylltiad dilynol â'r Pwyllgor yn ystod y gwaith craffu wedi rhoi gwybodaeth fanwl ychwanegol am y ddeddfwriaeth a eithriwyd (ac mae'r Llywodraeth wedi cael y rhyngweithio hwn yn ddefnyddiol).

- Mae gan **argymhelliad 9** oblygiadau ar gyfer y Bil hwn, biliau cydgrynhoi yn y dyfodol ac (yn fy marn i) Filiau diwygio'r gyfraith hefyd, gan ei fod yn ymwneud â'r

wybodaeth a ddarperir ar welliannau arfaethedig i Filiau. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn darparu gwybodaeth am ddiben ac effaith yr holl welliannau y mae'n eu cynnig i Filiau, ac mae'n bwriadu gwneud yr un peth ar gyfer unrhyw welliannau y mae'n eu cynnig i Filiau cydgrynhoi. Mae hyn ar ben y gofynion presennol ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn Rheolau Sefydlog 26 a 26C. Rydym yn sicrhau hefyd fod Gweinidog y Llywodraeth yn amlinellu'r achos dros bob gwelliant yn ystod trafodion y Pwyllgor neu'r Senedd. Credaf mai dyma'r ffordd y dylem barhau i roi ein barn ar reidrwydd a phriodoldeb gwelliannau, a bod penderfyniadau ar dderbynioldeb yn parhau i fod yn fater i'r Senedd a'r Llywydd.

Mae gweddill yr argymhellion ar gyfer y Senedd neu'r Pwyllgor Busnes ond, mewn perthynas ag **argymhelliad 14**, gallaf gadarnhau y bydd y Bil nesaf y disgwylir iddo gael ei gyflwyno o dan y rhaglen *Dyfodol Cyfraith Cymru* yn Fil a fydd yn diddymu darpariaethau ar y llyfr statud nad ydynt bellach o fudd ymarferol. Mae'r ymgynghoriad ar Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) drafft (Cymru) newydd ddod i ben a byddaf yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am hynny maes o law. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwnnw, rydym nawr yn disgwyl i'r Bil hwnnw gael ei gyflwyno i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 26. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol mai'r Bil cydgrynhoi nesaf fydd y prosiect sy'n ymdrin â symleiddio a moderneiddio cyfraith gynllunio, ac mae unrhyw adolygiad o Reol Sefydlog 26C yn debygol o ddigwydd tua diwedd y tymor Senedd hwn.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 7.7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/19/2023

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddBusnes@senedd.cymru

19 Ionawr 2023

Annwyl Elin,

Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 22 Medi. Gosodais Femoramdwm Cydsyniad Deddfwriaethol arno ar 3 Tachwedd a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 21 Rhagfyr.

Roedd Cyfnod Adrodd y Bil ddoe, Ionawr 18. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 11 Ionawr, ac rydym wrthi'n dadansoddi'r manylion i weld a fydd yn ofynnol inni lunio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn sgil y gwelliannau hyn. Rhannodd Llywodraeth y DU rywfaint o'r cynnwys polisi ar un o'r gwelliannau arfaethedig, ond ni rannodd holl fanylion y gwelliannau a gyflwynwyd. Yn ogystal, mae gwelliannau anllywodraethol perthnasol hefyd wedi cael eu cyflwyno, ac mae'n bosibl y cytunir i gynnwys y gwelliannau hyn yn y Bil.

Byddwn yn llunio un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymdrin â'r holl welliannau perthnasol a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Adrodd. Rwy'n cydnabod bod hyn yn golygu y caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ei osod fwy na phythefnos ar ôl cyflwyno'r set gyntaf o welliannau, ond credaf y bydd yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiad y Bil yn gywir ac yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu arno yn effeithiol.

Rwy'n anfon copïau o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.wales

18 Ionawr 2023

Annwyl Huw

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eich ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (SLCM), (Memorandwm Rhif 2), a osodwyd gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022 yng nghyswllt Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr, gan nodi bod yr Aelodau'n cytuno bod angen caniatâd ar gyfer cymalau 151 i 154 a 156 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus (Rhan 10 troseddau cyfathrebu).

Nodaf hefyd yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor bod angen caniatâd yn eu barn hwy ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14, fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus, mewn perthynas â diwygiadau sy'n ganlyniadol ar gymalau 152 a 153. Mae dadansoddiad cyfreithiol pellach gan fy swyddogion yn cadarnhau bod angen caniatâd ac o'r herwydd cyflwynwyd SLCM pellach (Memorandwm Rhif 4) ar 21 Rhagfyr.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod y 'drosedd gyfathrebu niweidiol' a nodwyd yng nghymal 151 wedi'i hepgor o'r Bil yn y Cyfnod Adrodd ar 5 Rhagfyr, rwy'n cadarnhau bod hyn wedi'i nodi yn yr SLCM (Memorandwm Rhif 4).

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 13

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 15

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon